# Ymgeisiwch nawr ar gyfer cyllid sgiliau Cyswllt Ffermio i...

...ddatblygu eich sgiliau, datblygu eich busnes
...cynllunio ar gyfer y dyfodol

FARMING connect
cyswllt FFERMIO

08456 000 813

**Mae'r cyfnod ymgeisio am gyllid sgiliau ar agor o 09:00 Dydd Llun, 11 Ionawr 2021 hyd at 17:00 Dydd Gwener, 26 Chwefror 2021**







- Mae cymhorthdal o hyd at **80%** ar gael ar gyfer cyrsiau hyfforddiant i fusnesau ac unigolion sydd wedi cofrestru
- Mae mwy na **70 o gyrsiau** ar gael, dan gategorïau Busnes, Tir a Da Byw
- Rhwydwaith o **ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy**, wedi'u lleoli ledled Cymru

*DS Darperir pob cwrs hyfforddi wyneb yn wyneb yn unol â chanllawiau cyfredol Covid-19. Er mwyn lleihau cyswllt wyneb yn wyneb, gall amrywiaeth o ddulliau gael eu defnyddio i ddarparu'ch hyfforddiant.*



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru/cyswlltffermio

## Mae'r busnesau fferm a choedwigaeth fwyaf blaengar ledled Cymru yn manteisio ar hyfforddiant drwy Cyswllt Ffermio. Mae'n eu cynorthwyo i weithio'n fwy effeithlon, yn fwy proffidiol ac yn fwy diogel.

Bydd datblygu eich sgiliau yn eich cynorthwyo i fod yn fwy gwydn wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. Os ydych chi wedi cofrestru* gyda Cyswllt Ffermio, gallwch ddewis o blith oddeutu 70 o wahanol gyrsiau wyneb i wyneb, a phob un ohonynt wedi'u hariannu'n rhannol hyd at 80% a'u darparu ledled Cymru gan ein rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy.

Mae hyfforddiant yn ymwneud â busnes yn amrywio o ddatblygu busnes, marchnata a rheolaeth ariannol i iechyd a diogelwch amaethyddol, diogelwch bwyd a chyrsiau arallgyfeirio.

Mae hyfforddiant yn ymwneud â'r tir yn amrywio o yrru tractor a cherbydau aml-dirwedd, defnyddio peiriannau a llif gadwyn i reoli'r borfa, rheoli coetir, trin slyri a defnyddio plaladdwyr yn ddiogel.

Mae hyfforddiant yn ymwneud â da byw yn cynnig cyrsiau ar ystod eang o bynciau ym maes iechyd a lles anifeiliaid o hwsmonaeth cyffredinol i fioddiogelwch, bridio, maeth a defnyddio gwrthfiotigau'n ddiogel.

- Gweler tudalen 5 am restr lawn o'r cyrsiau sydd ar gael ar yr adeg pan fo'r llyfryn yn cael ei argraffu (15/12/2020).

Mae'r ystod o gyrsiau'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd ar ein gwefan.

Ewch i **llyw.cymru/cyswlltffermiosgiliauhyfforddiant** er mwyn gweld manylion cyswllt pob darparwr hyfforddiant cymeradwy a rhestr gyfredol o'r cyrsiau hyfforddiant y mae pob un ohonynt yn eu cynnig.

- Am fwy o wybodaeth a chefnogaeth gweler tudalen 8 am fanylion cyswllt eich swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol.

*Os ydych chi'n bwriadu ymgeisio ar gyfer cyllid tuag at hyfforddiant yn ystod cyfnod ymgeisio mis Medi/Hydref, ac os nad ydych eisoes wedi cofrestru'n bersonol fel unigolyn, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar **08456 000 813** cyn **17:00 dydd Llun, 22 Chwefror 2021**

## Hyfforddiant Cyswllt Ffermio:
## - y broses ymgeisio ar-lein syml

**Cymhorthdal o hyd at 80%**

**1**

**Cyn y gallwch ymgeisio am hyfforddiant, mae angen i chi…**

- **Fod wedi cofrestru** gyda Cyswllt Ffermio gyda'ch cyfeiriad e-bost unigol sy'n unigryw i chi.
- **Derbyn e-bost yn cadarnhau eich cofrestriad** gan Cyswllt Ffermio, sy'n eich galluogi i gael mynediad i wefan BOSS Busnes Cymru drwy Sign on Cymru (SOC) at **https://businesswales.gov.wales/boss/cy**.

**2**

Gallwch ddod o hyd i ganllawiau defnyddwyr manwl ynghyd â fideo yn dangos i chi sut i greu eich cyfrif BOSS eich hun drwy SOC ar dudalennau sgiliau a hyfforddiant Cyswllt Ffermio.

- **Cwblhau Cynllun Datblygu Personol ar-lein**. Bydd eich Cynllun Datblygu Personol yn dynodi pa gyrsiau fydd yn cryfhau eich sgiliau ac yn helpu i ddatblygu eich busnes.
- Rydych yn awr yn barod i **lenwi eich ffurflen gais hyfforddiant**.
- Bydd yn gofyn am **deitl y cwrs yr ydych wedi ei ddewis, ei gost a'r darparwr hyfforddiant yr ydych wedi ei ddewis**.

Gwiriwch y wybodaeth hon yn ofalus gyda'ch darparwr hyfforddiant ymlaen llaw gan na fydd modd i chi gywiro unrhyw gamgymeriadau yn ddiweddarach.

- Pan fyddwch yn hapus, cliciwch **CYFLWYNO**

**3**

Mae canllawiau manwl ar gyfer yr uchod ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio. Fel arall, gallwch ofyn am gefnogaeth gan eich swyddog datblygu Cyswllt Ffermio lleol neu'r darparwr hyfforddiant a ddewiswyd gennych chi.

**Cewch wybod beth oedd canlyniad eich cais** cyn pen tua tair wythnos ar ôl i'r cyfnod ymgeisio gau.

### A oes angen help llaw arnoch?

**Os nad ydych chi'n sicr a ydych chi'n gymwys, beth allwch chi ymgeisio ar ei gyfer, neu unrhyw ran o'r broses o ymgeisio am gyllid tuag at sgiliau, mae help ar gael, pryd bynnag yr ydych chi ei angen…**

- ✓ Ewch i'r dudalen 'Sgiliau a Hyfforddiant' **llyw.cymru/cyswllteffermiosgiliauhyfforddiant** er mwyn cael canllawiau cam wrth gam ynghyd â fideo yn dangos i chi sut i gwblhau'r Cynllun Datblygu Personol a'r broses ymgeisio, a fideo'n dangos sut i greu cyfrif BOSS drwy Sign on Cymru.
- ✓ Cysylltwch a'ch swyddog datblygu lleol a fydd yn gallu eich cynorthwyo gydag unrhyw gam yn y broses a'ch arwain drwy'r prosesau ar-lein os oes angen cymorth arnoch.
- ✓ Cysylltwch â'r darparwr hyfforddiant a ddewiswyd gennych (*mae rhestr ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio, ynghyd â'u manylion cyswllt a rhestr o'r cyrsiau hyfforddiant y mae pob un yn eu cynnig*)

## CYNGOR DEFNYDDIOL

- ✓ Sicrhewch fod eich Cynllun Datblygu Personol yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a bod gennych nod perthnasol ar gyfer pob cwrs yr ydych yn gwneud cais ar ei gyfer. Ni allwch ymgeisio am gyllid tuag at sgiliau heb Gynllun Datblygu Personol, ond mae hefyd yn adnodd defnyddiol i'ch cynorthwyo i ganfod pa sgiliau sydd angen i chi eu dysgu neu eu datblygu.
- ✓ Cyn i chi gyflwyno eich cais, mae'n hanfodol bod teitl y cwrs, cost y cwrs a manylion eich darparwr hyfforddiant yn gywir. Gwiriwch y wybodaeth hon yn ofalus gyda'ch darparwr hyfforddiant ymlaen llaw gan na fydd modd i chi gywiro unrhyw gamgymeriadau'n ddiweddarach.
- ✓ Os ydych chi'n ymgeisio ar gyfer cwrs yn ymwneud â defnyddio peiriannau ac offer, mae'n RHAID i chi gwblhau cwrs Iechyd a Diogelwch Cyswllt Ffermio ar-lein, sydd ar gael drwy BOSS yn unig.

Storfa Sgiliau
Skills Store

**STORFA SGILIAU**
– yr adnodd diogel ar-lein i'ch cynorthwyo i gyflawni eich nodau

Bydd cofnod o'r holl gyrsiau hyfforddi Cyswllt Ffermio a gwblhawyd, fydd yn cael eu huwchlwytho ar eich rhan, ynghyd â data llwyddiannau a datblygiad personol a phroffesiynol *(y gallwch eu huwchlwytho eich hun)* yn cael eu storio a'u diweddaru yn eich proffil *Storfa Sgiliau ddiogel eich hun ar-lein.

*Am ragor o wybodaeth am Storfa Sgiliau ewch i **llyw.cymru/cyswllteffermiostorfasgiliau**

# Datblygu eich sgiliau... datblygu eich busnes…

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich Cynllun Dysgu Personol, bydd gennych syniad clir o'ch nodau a'r hyfforddiant sydd arnoch ei angen i'ch helpu i ddatblygu sgiliau newydd neu i atgyfnerthu eich sgiliau presennol.

Er mwyn darganfod yr hyn y gall pob darparwr hyfforddiant ei gynnig ac am restr gyfredol o'r cyrsiau sydd ar gael, dylech hefyd fynd i **llyw.cymru/cyswllteffermiosgiliauhyfforddiant**

## Cyrsiau Hyfforddiant

HYFFORDDIANT BUSNES - cymhorthdal o **80%**

| |
|---|
| Arwain a Rheoli |
| Cadw Llyfrau, TAW a Gwneud Treth yn Ddigidol |
| Cael y gorau o'ch pobl |
| Cyflwyniad i gynllunio busnes amaethyddol |
| Cymorth Cyntaf yn y Gweithle |
| Cymorth Cyntaf yn y Gweithle mewn Argyfwng |
| Cynllunio a datblygu busnes |
| Cynllunio ar gyfer arallgyfeirio neu fenter newydd ar fferm |
| Cynllunio eich busnes ar gyfer y dyfodol |
| Deall a defnyddio eich cyfrifon |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo, Gweithgynhyrchu neu Adwerthu |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle |
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Diogelwch Bwyd ym maes Arlwyo, Gweithgynhyrchu neu Adwerthu |

| |
|---|
| Dyfarniad Lefel 3 mewn Iechyd a Diogelwch Goruchwyliol |
| Gweithdai Gofalu am eich Busnes (IAgSA) 1 |
| Gweithdai Gofalu am eich Busnes (IAgSA) 2 |
| Gweithio'n Ddiogel mewn Amaethyddiaeth / Garddwriaeth |
| Iechyd a Diogelwch mewn Amaethyddiaeth – Paratoi ar gyfer Archwiliad |
| Marchnata eich busnes |
| Rheoli eich llif arian |
| Rheoli Risg |
| Rheoli Straen |
| Rheoli timau achlysurol a thymhorol |
| Trin a Thrafod Pwysau |
| Ymwybyddiaeth wrth Weithio'n Uchel ac Asesu'r Risg |

## HYFFORDDIANT YN YMWNEUD Â'R TIR - cymhorthdal o **80%**

| |
|---|
| Pori er lles Cadwraeth |
| Rheoli wiwerod llwyd |
| Rheoli Gwahaddod - Technegau trapio |
| Rheoli Cwningod a Gwahaddod - Technegau trapio |

| |
|---|
| Rheolaeth Cyfrifol ac Effeithiol o Gnofilod Cydfwytaol |
| Rheoli Llygod ar Ffermydd |
| Defnyddio a Gwasgaru Slyri'n Ddiogel |
| Defnyddio Alwminiwm Ffosffid yn Ddiogel i Reoli Fertebriaid |

## HYFFORDDIANT YN YMWNEUD Â'R TIR (peiriannau) - cymhorthdal o **40%**


| |
|---|
| ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno) |
| ATV Llywio Confensiynol (Eistedd i mewn) |
| Cwympo a Phrosesu Coed dros 380mm |
| Cwympo a Phrosesu Coed hyd at 380mm |
| Cynnal a Chadw Llif Gadwyn a Thrawslifio |
| Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trawslifio, Torri a Phrosesu Coed hyd at 380mm |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Chwistrellu Bŵm wedi'i osod ar Gerbyd (PA2) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) / Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1) a Defnyddio Plaladdwyr / Gwasgarwyr Gronynnol yn Ddiogel (PA4) |



| |
|---|
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Chwistrellu Bŵm wedi'i osod ar Gerbyd: PA2 F - Categori Weed Wiper |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Denfyddio Plaladdwyr yn Ddiogel / Gwasgarwyr Gronynnol (PA4) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6) |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Gwasgaru Plaladdwyr yn Ddiogel gan ddefnyddio Offer Chwistrellu Bŵm wedi'i osod ar Gerbyd (PA2) |
| Gyrru Tractor |
| Gyrru Tractor ar Lethrau |
| Gyrru Tractor gyda Llwythwr Blaen |
| Lleihau Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr mewn Systemau da Byw |
| Torri Coed sydd wedi'u codi o'r Gwreiddyn neu wedi'u Chwythu gan y Gwynt gyda Llif Gadwyn |
| Tryc Codi Telesgopig ar gyfer Tir Garw |

## HYFFORDDIANT DA BYW - cymhorthdal o **80%**

| |
|---|
| Cneifio Defaid gyda Pheiriant |
| Cwrs Cneifio Defaid ar Lefel Uwch |
| Cwrs lefel uwch ar docio traed gwartheg |
| Cwrs Meistroli Meddyginiaethau |
| Cyflwyniad i Reoli Llyngyr a Chyfrif wyau Ysgarthol ar gyfer Cynhyrchwyr Defaid |
| Defnyddio Dip Defaid yn Ddiogel |
| Defnyddio Meddyginiaethau Milfeddygol mewn modd Diogel |
| DIY Ffrwythloni Artiffisial (AI) |
| Gwell Systemau trin Da Byw er mwyn cynyddu elw |
| Hylendid a Bioddiogelwch (Pasbort Dofednod) |
| Iechyd, Lloches a Rheoli Lloi |

| |
|---|
| Lion Training Passport: Bioddiogelwch, Diogelwch a Thrin a Thrafod Wyau |
| Lion Training Passport: Gweithiwr Lles Dofednod |
| Lion Training Passport: Rheoli Lles Dofednod |
| Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr mewn System Da Byw |
| Lles Dofednod (Pasbort Dofednod) |
| Paratoi ar gyfer Rheoliadau IPPC (Diwydiant Dofednod) |
| Sganio Defaid |
| Sgorio Symudedd Gwartheg |
| Technegau Ŵyna |
| Trimio Traed Gwartheg |







# SWYDDOGION DATBLYGU CYSWLLT FFERMIO

## ...darparu cefnogaeth ar lefel leol

FARMING connect
cyswllt FFERMIO
08456 000 813

1 

YNYS MÔN
ANGLESEY
Trystan Siôn
07985 379821
trystan.sion@menterabusnes.co.uk

2 

LLŶN AC ERYRI
LLŶN AND SNOWDONIA
Alan Armstrong
07415 757461
alan.armstrong@menterabusnes.co.uk

3 

MEIRIONNYDD
MEIRIONNYDD
Eryl P Roberts
07917 895253
eryl.roberts@lantra.co.uk

4 

GOGLEDD CEREDIGION
NORTH CEREDIGION
Marc Bowen
07985 379887
marc.bowen@menterabusnes.co.uk

5 

DE CEREDIGION
SOUTH CEREDIGION
Rhiannon Davies
07896 837725
rhiannon.davies@menterabusnes.co.uk

6 

GOGLEDD PENFRO
NORTH PEMBROKESHIRE
Rhiannon James
07985 379927
rhiannon.james@menterabusnes.co.uk

7 

DE PENFRO
SOUTH PEMBROKESHIRE
Susie Morgan
07867 908193
susie.morgan@lantra.co.uk

8 

DE SIR GÂR
SOUTH CARMARTHENSHIRE
Gareth Griffiths
07772 694112
gareth.griffiths@menterabusnes.co.uk

9 

GOGLEDD SIR GÂR
NORTH CARMARTHENSHIRE
Alun Bowen
07896 262736
alun.bowen@menterabusnes.co.uk

10 

DE CYMRU
SOUTH WALES
Hannah Wright
07984 251190
hannah.wright@menterabusnes.co.uk

11 

SIR FYNWY, TORFAEN A BLAENAU GWENT
MONMOUTHSHIRE, TORFAEN AND BLAENAU GWENT
Lisa Powell
07772 694952 lisa.powell@menterabusnes.co.uk

12 

BRYCHEINIOG
BRECKNOCK
Gwen Price
07487 254843
gwen.price@menterabusnes.co.uk

13 

MAESYFED
RADNORSHIRE
Natalie Chappelle
07985 379928
natalie.chappelle@menterabusnes.co.uk

14 

DE SIR DREFALDWYN
SOUTH MONTGOMERYSHIRE
Elin Haf Williams
07508 867212
elin.haf.williams@menterabusnes.co.uk

15 

GOGLEDD SIR DREFALDWYN
NORTH MONTGOMERYSHIRE
Owain Pugh
07904 457316
owain.pugh@menterabusnes.co.uk

16 

WRECSAM A FFLINT
WREXHAM AND FLINT
Gwenno Puw Rowlands
07772 694098
gwenno.puw.rowlands@menterabusnes.co.uk

17 

DINBYCH
DENBIGH
Elen Williams
07985 379904
williams.elen@menterabusnes.co.uk

18 

CONWY
CONWY
Guto Owen
07896 996832
guto.owen@menterabusnes.co.uk